Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Number: 45/2015

# Adolygiad o weithrediad y Fframwaith Adolygiadau Ymarfer Plant

## Crynodeb Gweithredol

# ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y FFRRAMWAITH ADOLYGIADAU YMARFER PLANT

## Cordis Bright

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Chris Roberts
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6543
E-bost: chris.roberts@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llwodraeth Cymru, 13 Awst 2015
ISBN 978-1-4734-4348-8

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1. CYLCH GWAITH

Cafodd Cordis Bright ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gwblhau'r adolygiad hwn er mwyn asesu'r broses o weithredu'r fframwaith Adolygu Ymarfer Plant (AYP). Prif nod yr adolygiad oedd asesu'r graddau y mae'r gwelliannau a fwriadwyd i'r system flaenorol o gwblhau Adolygiadau Achosion Difrifol (AAD) i'w gweld ddwy flynedd ar ôl gweithredu'r AYP. Mae'r broses AYP newydd yn deillio o adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009: *Gwella Ymarfer ar gyfer Amddiffyn Plant yng Nghymru: Golwg ar Rôl Adolygiadau Achosion Difrifol.* Daeth y gwaith hwn i'r casgliad bod angen gweithredu er mwyn diddymu'r broses AAD a oedd bellach yn aneffeithiol o ran gwella ymarfer ac o ran gwaith rhyngasiantaethol.

<u>Nid</u> nod yr adolygiad oedd gwerthuso ansawdd neu effaith yr AYPau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn erbyn y nifer cyfyngedig a gwblhawyd. Bydd y gwaith o asesu effaith ehangach AYPau yn dilyn ar adeg briodol.

## 2. DULLIAU

Dyma'r dulliau a ddefnyddiwyd i adolygu'r broses o weithredu AYPau:

- adolygu data monitro Llywodraeth Cymru ar AYPau;
- adolygu 44 o hysbysiadau i Lywodraeth Cymru o'r bwriad naill ai i gynnal adolygiad cryno neu estynedig neu Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA);
- adolygu 10 o adroddiadau AYP a gyhoeddwyd er mwyn deall y broses o ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer y rhan hon o'r broses;
- cyfweliadau wedi eu lled strwythuro gyda 32 o randdeiliaid a oedd yn rhan o broses, grwpiau a phaneli AYP.

## 3. CANFYDDIADAU

### Lefel ymwybyddiaeth o AYPau

Roedd lefel yr ymwybyddiaeth yn amrywio yn ôl lefel cyfraniad gweithwyr proffesiynol yn y broses AYP. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod gweithwyr proffesiynol lefel uchaf yr asiantaeth yn fwy tebygol o gael gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r broses oherwydd eu rhan mewn Byrddau Lleol Diogelu Plant neu eu rhan mewn Grwpiau Adolygu Ymarfer Plant (GAYP) a Phaneli Adolygu. Ar y llaw arall, teimlwyd bod ymwybyddiaeth o ymarfer rheng flaen yn seiliedig ar a oeddent wedi bod yn rhan o Ddigwyddiad Dysgu. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu y byddai mwy o ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau'r broses wrth i fwy o AYPau gael eu cwblhau. Un o'r canfyddiadau pwysig oedd y gefnogaeth gyffredinol i'r broses AYP o gymharu â'r gefnogaeth i'r broses a oedd ar waith yn flaenorol, er bod rhanddeiliaid yn parhau i deimlo bod angen codi ymwybyddiaeth o'r broses AYP ymysg yr holl grwpiau staff ym mhob asiantaeth.

### Sut caiff penderfyniadau eu gwneud ynglŷn ag ai mynd ymlaen ag AYP ai peidio?

Roedd un o'r pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid yn ymwneud â'r defnydd o rai termau penodol a nodir yn y canllawiau a sut yr ymddengys iddynt gael eu dehongli'n wahanol ar draws rhai ardaloedd. Yn ôl nifer o randdeiliaid, un canlyniad anfwriadol i hyn oedd y byddai rhai GAYPau'n cytuno i gwblhau AYP yn seiliedig ar ddehongliad lleol o'r canllawiau tra na fyddai ardaloedd eraill yn symud ymlaen i AYP. Dywedodd rhanddeiliaid a oedd yn aelodau o fwy nag un GAYP rhanbarthol eu bod wedi gweld amrywiadau yn y ffordd y caiff y canllawiau eu dehongli. Wedi dweud hynny, roedd rhanddeiliaid yn credu'n gyffredinol bod y broses o wneud penderfyniadau yn eu hardaloedd nhw yn gadarn a chyson ymysg aelodau GAYP.

**Faint o amser sydd ei angen i gynnal AYP a pha adnoddau sydd eu hangen?**

Mae rhanddeiliaid yn credu'n gyffredinol bod AYPau yn mynd â llawer o amser ac yn cael effaith sylweddol ar y rhai dan sylw ac ar eu gallu i fodloni nid yn unig gofynion yr AYP ond eu rolau parhaol hefyd. Un o heriau eraill y broses oedd ceisio cydgysylltu dyddiaduron nifer o aelodau staff, ac o ganlyniad gall y broses AYP gymryd yn hirach na'r chwe mis a ragwelwyd yn y canllawiau'n wreiddiol. Pan gynhaliwyd yr adolygiad hwn, deallwn ei bod yn cymryd deuddeg mis i gwblhau'r AYP. Ystyriwyd bod yr oedi yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr adroddiad AYP terfynol. Yn ogystal, adroddodd rhanddeiliaid fod cyfleoedd dysgu posibl yn cael eu colli gan na allai gweithwyr proffesiynol allweddol, ar adegau, fynychu Digwyddiadau Dysgu, ac o ganlyniad nid oedd gwybodaeth bwysig ar gael. Yn olaf, adroddodd y rhanddeiliaid mai ychydig iawn o wahaniaeth o ran amser ac ymdrech oedd rhwng cwblhau adolygiad cryno a chwblhau adroddiad estynedig.

**Pwy sy'n rhan o'r AYPau?**

Cydnabuwyd bod rhanddeiliaid yn cyfrannu'n dda ac yn ymroi'n gymeradwy ar bob lefel i'r broses AYP. Disgrifiwyd y Digwyddiad Dysgu fel agwedd gadarnhaol ar y broses a'i fod yn ysgogi dysgu myfyriol. Gwelwyd bod cynnwys teuluoedd yn ychwanegu gwerth sylweddol at y broses. Credai rhai rhanddeiliaid fod rhai ymchwiliadau cyfochrog fel achosion troseddol, prosesau disgyblu neu Gwest Crwner yn rhwystro AYPau rhag cael eu cwblhau o fewn amserlen a ddymunir. Adroddodd rhanddeiliaid hefyd fod angen i'r canllawiau fod yn fwy eglur nag ydynt ar hyn o bryd ar gyfer y broses AYP mewn amgylchiadau lle mae ymchwiliadau allanol yn parhau ar y gweill, gan fod yr achosion hyn, yn ôl eu natur, yn tueddu i fod yn fwy cymhleth.

**Pa mor effeithiol yw'r broses o ledaenu'r dysgu?**

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod cryn le i wella wrth ledaenu'r dysgu o'r AYPau, yn enwedig ynghylch dysgu cenedlaethol ehangach a sut y gallai gwahanol ardaloedd ddysgu oddi wrth ei gilydd.

## 4. CASGLIADAU

Roedd pawb o blaid y broses AYP newydd gyda rhanddeiliaid yn dangos ymrwymiad sylweddol i sicrhau bod y broses yn gweithio, er mewn ffyrdd gwahanol, ar draws y rhanbarthau. Er bod yna gydnabyddiaeth gyffredinol ymysg rhanddeiliaid bod y broses yn ychwanegu'n sylweddol at allu gweithwyr proffesiynol, yr hyn a ddaeth i'r amlwg fwyaf oedd y gydnabyddiaeth wirioneddol o'r angen i gael y broses yn gywir, i gynorthwyo ymarferwyr a rheolwyr rheng flaen ac ymgysylltu â theuluoedd yn fwy cadarnhaol. Cydnabuwyd bod yr ansawdd yn amrywio gyda rhai agweddau ar y broses a bod yr oedi wedi, ar brydiau, cael effaith ar ansawdd, ond y teimlad oedd y byddai ansawdd y broses yn gwella ac y byddai ymwybyddiaeth yn cynyddu wrth i fwy o AYPau gael eu cwblhau. Byddai hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar lefel ehangach yr ymarfer dysgu ledled Cymru. Yn olaf, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i fod yn rhan o'r gwaith o ledaenu'r canfyddiadau'n genedlaethol.